Pwy yw'r Iesu go-iawn?

PENUEL BANGOR

Torri Syched – Hydref 4, 2009

Does neb wedi ei garu na'i gasau gymaint a Iesu Grist. Tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl ganwyd Iesu mewn tref wledig fach, diarffordd, oedd eitha *run-down*. Lle digon tebyg i Ddeiniolen maen siŵr. Roedd Mam Iesu'n un o'r *tennage single mothers* yma a byddai hi wedi bod yn destun sbort gan iddi honni mae'r Ysbryd Glan wnaeth ei beichiogi. "Loopy" byddai pobl wedi dweud wrthi. Treuliodd Iesu drideg o flynyddoedd cyntaf ei fywyd wedyn yn chwifio morthwyl a llif gyda Joseff a briododd ei fam. Chafodd Iesu ddim TGAU's, Lefelau A, dim llwyfan yn steddfod yr Urdd na gradd dda yn y Gymraeg. Dim ond llifo a sandio am dri deg mlynedd gyda Joseff.

Tua adeg ei ben-blwydd yn dri deg dechreuodd ar ei weinidogaeth gyhoeddus oedd yn cynnwys pregethu, iachau pobl sâl, bwydo'r rhai oedd yn llwgu a dod yn ffrindiau gyda phobl ar ymylon cymdeithas – pyrfyrts, meddwon, lladron a dawnswyr gwerin. Dim ond am dair mlynedd buodd Iesu'n gweinidogaethu cyn iddo gael ei ddedfrydu i farwolaeth gwaedlyd ar y groes am honni ei fod e'n Dduw.

Buodd e farw ar y Groes fel miloedd o bobl o'i flaen a miloedd ar ei ôl.

Tasg ddigon hawdd, digon diflas ar yr olwg gyntaf byddai sgwennu *obituary* i Iesu ar gyfer y Daily Post neu'r Western Mail y diwrnod ar ôl ei farwolaeth. Deithiodd e ddim mwy nag ychydig gannoedd o filltiroedd o'i dre enedigol. Chafodd e ddim gap year na chyfnod ar gwrs ysgrifennu creadigol yn tŷ newydd. Ddaliodd e byth unrhyw swydd o bwys mewn cymdeithas – dim gyrfa wleidyddol o unrhyw fath. Sgwennodd e ddim un llyfr. Briododd e byth a buodd e farw'n *virgin*.

Dyn tlawd a fuodd farw'n ddi-gartref.

Ond rhywsut yr un dyn yma – Iesu Grist – ydy'r person enwocaf yn hanes dynoliaeth. Mae mwy o ganeuon wedi eu sgwennu amdano, mwy o weithiau celf wedi ei wneud ohono, mwy o lyfrau wedi eu sgwennu amdano nac unrhyw un arall sydd wedi byw. Mae cysgod Iesu mor fawr dros hanes dynoliaeth nes ein bod ni'n cyfri'n dyddiau cyn ac ar ôl ei eni ar ein calendrau. Does dim un byddin, gwlad, na pherson wedi effeithio hanes y ddynoliaeth cymaint a Iesu. Dwy fil o flynyddoedd ar ôl iddo gerdded o gwmpas Jwdea mae Iesu'n ennyn ymateb a sylw cymaint heddiw ag a fu ar unrhyw adeg.

Iesu mewn diwylliant cyfoes

Ar y teledu mae Iesu'n gwneud ymddangosiadau gweddol gyson ar y rhaglenni *The Simpsons* a *South Park*. Ym myd ffasiwn mae Iesu'n dangos ei wyneb o bryd i'w gilydd hefyd. Cyn iddo gau roedd *Caffe Society* i lawr y ffordd yn gwerthu crysau-t "Look busy Jesus is coming". Mi fydd rhai ohonoch chi hefyd yn gyfarwydd gyda'r crys-t "Jesus is my homeboy" sydd wedi cael ei wisgo gan Ben Affleck, Brad Pitt a neb llai na'r hynod Pamela Anderson.

Ym myd y ffilm maen debyg fod tua cant o ffilmiau wedi eu gwneud am Iesu y rhai diweddaraf oedd y Passion of Christ a'r ddwy ffilm yn seiliedig ar nofelau Dan Brown – Da Vinci Code ac Angels & Demons – rhain yn rai o'r ffilmiau mwyaf llwyddiannus yn fasnachol yn y blynyddoedd diwethaf.

Ym myd cerddoriaeth mae'r rapiwr Kanye West, y rocwyr The Killers a'r pyncwyr Green Day wedi canu am Iesu'n ddiweddar. Yma yng Nghymru mae'r Big Leaves wedi canu "wyt ti dal yn credu mewn Duw?" a'r Ffa Coffi Pawb wedi dweud yn ddigon ffraeth ei bod hi'n "haws dilyn hysbysebu na dilyn Iesu!".

Ym myd chwaraeon fe glywn am y chwaraewyr mwyaf talentog yn gweddïo ar Iesu cyn mynd allan ac yn diolch iddo ar ôl sgorio. Yn America, lle arall, mae yna gymdeithasau

ymaflyd codwn dros Iesu: 'Wrestling for Jesus', 'Ultimate Christian Wrestling' a'r 'Christian Wrestling Foundation'.

Ar y radio, yn America unwaith eto, medrwch chi diwnio mewn i'r "Jesus Christ Show" bob bore dydd Sul lle mae'r cyflwynydd Neil Saavendra yn esgus bod yn Iesu Grist ac yn cynnig cyngor i'w wrandawyr.

Does dim modd dianc rhag Iesu yn ein diwylliant poblogaidd.

Beth mae'r cwlts yn dweud am Iesu?

Mae llawer yn credu fod pob crefydd, yn y bôn, yr un peth. Ond wrth edrych beth mae gwahanol gwlts a chrefyddau'n dweud am Iesu fe welw ni fod pob un yn sicr ddim yr un peth. Mae rhai cwlts yn dysgu fod Iesu yn ddyn da, y dyn gorau, ond dydyn nhw ddim yn rhy siŵr os ydy e'n Dduw. Mae'r *New Age guru* Deepak Chopra er enghraifft yn credu hyn: "I see Christ as a state of consciousness we can all aspire to." Yn ôl arweinwyr Scientology, sydd yn awr a'r actor Tom Cruise ymysg eu rhengoedd, yn credu taw "implant" wedi ei fewnblannu mewn i ddyn miliwn o flynyddoedd yn ôl ydy Iesu. Mi fuaswn ni'n trio esbonio esbonio'r theori yma'n well i chi ond dwi rioed wedi cymryd LSD na smygu'r mwg drwg.

Ond y cwlt sydd a'r gred orau am Iesu mae'n siŵr ydy'r "Canadian Nudist-Arsonist Cult" sy'n credu fod y gair "Iesu" yn y Beibl yn air cudd i fwyta madarch hud, tynnu eich dillad ffwrdd a rhoi pethau ar dân! Wel, os ymuno a cwlt gwell ymuno ag un sy'n dipyn o hwyl amwn i!

Beth ma crefyddau eraill yn dweud am Iesu?

Mae'r Baha'is yn credu fod Iesu yn broffwyd sy'n ymgorfforiad o Dduw ond yn is-raddol i Mohamed. Mae Bwdïaeth yn dysgu fod Iesu ddim yn Dduw ond yn hytrach yn ddyn

goleuedig fel y Bwda. Mae Hindŵaeth yn ystyried y gall Iesu fod yn Dduw ond mae un Duw ymysg y miloedd o Dduwiau ydyw. Islam yn dysgu mae proffwyd yn unig a hwnnw yn un is-raddol i Mohamed ydy Iesu.

Felly pwy yw'r Iesu go-iawn?

Mae cymaint o bobl wedi dweud, canu, arlunio a meddwl pethau gwahanol am Iesu. Pwy oedd Iesu mewn gwirionedd? Ydy e'n ddyn da neu'n Dduw? Ydy e'n gymeriad mewn comedi neu'n Dduw? Ydy e'n homeboy neu'n waredwr? Cymaint o bobl wedi dweud pethau gwahanol am Iesu – felly y peth gorau i wneud ydy gadael i Iesu siarad drosto e ei hun.

Honnodd Iesu ei fod wedi dod i lawr o'r nefoedd

Fe ddywedodd Iesu ei fod wedi dod i lawr o'r nefoedd. Mae yna lawer o bobl wrth gael *near death experiance* yn dweud eu bod nhw wedi eu cymryd i fyny i'r nefoedd. Mae'r proffwyd moslemaidd Mohamed yn honni iddo gael ei gymryd o'r ddaear i'r Nefoedd unwaith hefyd lle gafodd sgwrs gyda Moses ac eraill cyn dychwelyd gyda'r gorchymyn fod yn rhaid i'w ddilynwyr weddïo ar Allah 5 gwaith y diwrnod. Ond mae honiad Iesu yn wahanol i honiad Mohamed a'r bobl sydd wedi cael *near death experiance* oherwydd nid cael sbecian i fewn i weld Allah neu Elvis wnaeth Iesu.

Honnodd Iesu ei fod e'n byw yn y Nefoedd ac mai wedi dod i lawr i'r Ddaear yn hytrach na'r ffordd arall rownd y gwnaeth. Yn Ioan 6:41-46 fe glywn ni Iesu'n datgan yn glir ei fod wedi dod i lawr o'r nefoedd:

> *41 Yna dechreuodd yr Iddewon rwgnach amdano oherwydd iddo ddweud, "Myfi yw'r bara a ddisgynnodd o'r nef."*
> *42 "Onid hwn," meddent, "yw Iesu fab Joseff? Yr ydym ni'n adnabod ei dad a'i fam. Sut y gall ef ddweud yn awr, 'Yr wyf wedi disgyn o'r nef'?"*

43 Atebodd Iesu hwy, "Peidiwch â grwgnach ymhlith eich gilydd.
44 Ni all neb ddod ataf fi heb i'r Tad a'm hanfonodd i ei dynnu; a byddaf fi'n ei atgyfodi yn y dydd olaf.
45 Y mae'n ysgrifenedig yn y proffwydi: 'Fe gânt oll eu dysgu gan Dduw.' Y mae pob un a wrandawodd ar y Tad ac a ddysgodd ganddo yn dod ataf fi.
46 Nid bod neb wedi gweld y Tad, ac eithrio'r hwn sydd oddi wrth Dduw; y mae hwnnw wedi gweld y Tad.

Mewn geiriau eraill roedd Iesu yn dweud ei fod yn Dduw. Allan o holl sylfaenwyr y gwahanol grefyddau Iesu ydy'r unig un sy'n honni fod e ei hun yn Dduw.

A'i dim ond dyn da oedd Iesu?

Y farn gyffredinol am Iesu ymysg pobl sy ddim yn Gristnogion ydy fod Iesu ddim yn Dduw ond ei fod yn ddyn da. Ond mae Iesu ei hun yn gwadu hyn. Yn Marc 10:17-18 mae'n dweud wrth y dyn wnaeth ei alw'n “Athro Da” nad oes neb yn dda heblaw am Dduw. Mewn geiriau eraill roedd Iesu'n awgrymu wrth y dyn ei fod ef yn Dduw. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd honna Iesu mae nid un dyn da ymysg llawer yn pwyntio pobl at y gwirionedd oedd e.

Yn hytrach dywedodd mai fe oedd y gwirionedd.

Dywedodd Iesu ei fod e'n Dduw

Gwnaeth Iesu hi'n hollol glir ei fod e'n Dduw. Pe bae e ddim yn Dduw yna mae'n torri'r cyfamod cyntaf drosodd a throsodd. Pe na bai Iesu'n wir Dduw byddai'n gablwr enfawr am iddo dorri'r cyfamod cyntaf drosodd a throsodd. Un o'r darnau amlycaf lle mae Iesu'n ei gwneud hi'n hollol glir ei fod e'n Dduw ydy Marc 14:61-64:

61 Parhaodd yntau'n fud, heb ateb dim. Holodd yr archoffeiriad ef drachefn,

ac meddai wrtho, "Ai ti yw'r Meseia, Mab y Bendigedig?"
62 Dywedodd Iesu, "Myfi yw, 'ac fe welwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu ac yn dyfod gyda chymylau'r nef.' "
63 Yna rhwygodd yr archoffeiriad ei ddillad a dweud, "Pa raid i ni wrth dystion bellach?
64 Clywsoch ei gabledd; sut y barnwch chwi?" A'u dedfryd gytûn arno oedd ei fod yn haeddu marwolaeth.

Yn ei gyfnod roedd pobl yn ei chael hi'n anodd derbyn fod Iesu'n Dduw. Mae hyn yn parhau i fod yn wir heddiw. Oherwydd os ydy Iesu'n Dduw mae yna oblygiadau i bob un ohonom ni wrando ar yr hyn ddywedodd a dydy pobl ddim yn hoffi hynny. Mae hynny yn anghyfleus i'n bywydau a'n byd-olwg cyfforddus ni.

Iesu'n honni mae Ef yw'r unig ffordd

Nid yn unig fod Iesu wedi honni ei fod wedi dod i lawr o'r nefoedd ond fe honnodd mai fe oedd yr unig ffordd i'r nefoedd i ni. Fe ddywedodd yn Ioan 14:6 "Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y tad ond trwof fi."

Nid fy ngeiriau i mo rheiny, ond geiriau'r Iesu ei hun.

Beth a wnawn ni o honiadau'r Iesu felly?

Mae yna dri opsiwn felly yn wyneb y dystiolaeth yma. Mae Iesu nai llai yn i.) gelwyddgi, yn ii.) nytar neu'n iii.) wir Dduw.

Celwyddgi?

Os mai celwyddgi oedd Iesu yna fe oedd y dyn gwaethaf ac nid y dyn gorau i droedio wyneb y ddaear oherwydd fe lwyddodd i sefydlu'r cwlt mwyaf yn hanes dynoliaeth a

hynny ar gownt celwydd yn unig.

Nytar?

Mae'n anodd ffeindio unrhywun sy'n honni ei fod e'n Dduw ond fe ddes i ar draws un bachgen ar *MySpace*. Ond chi'n gwybod be? Doedd ganddo ddim llawer o ffrindiau ar MySpace. Pam? Oherwydd ei fod e mwy na thebyg yn fwy nyts na bar o *Snickers*.

Felly os honnodd Iesu ei fod en Dduw ond doedd e ddim wedi'r cyfan yna roedd Iesu'n nytar o'r radd flaenaf.

Arglwydd?

Ond doedd Iesu ddim yn gelwyddgi nac yn nytar. Roedd Iesu felly yn wir Dduw. Beth ddylai ein hymateb fod felly? Wel, troi i ffwrdd o'n pechodau a derbyn ei faddeuant a'i addoli. Os oedd Iesu'n dweud y gwir ac nid yn rhaffu celwyddau yna maen bwysig, maen fraint hyd yn oed ymateb i'w eiriau heno. Ei dderbyn i mewn i'n bywydau ai addoli.

Rhys Llwyd, Hydref 2009